# Swyddog Cyfathrebu a Digwyddiadau

## Gweithio i ColegauCymru

### Cytundeb

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig contract cyflogaeth barhaol, amser llawn, yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf chwe mis yn foddhaol.

### Cyflog

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn cyflog o £31,486 - £35,199 y flwyddyn.

### Gwyliau

Yr hawl gwyliau blynyddol ar gyfer y rôl hon yw 28 diwrnod. Yn ogystal â'r hawl personol hwn, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd hawl i wyliau ar 8 o wyliau cyhoeddus ynghyd â diwrnodau ychwanegol.

### Oriau Gwaith

Mae'r oriau llawn-amser a gytunwyd yn 37 awr yr wythnos, heb gynnwys seibiannau bwyd, a byddant wedi'u trefnu i fodloni anghenion y swydd Swyddog Cyfathrebu a Digwyddiadau.

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fynychu cyfarfodydd gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae'r sefydliad yn gweithredu polisi TOIL (time off in lieu).

### Pensiwn

Bydd ColegauCymru yn gwneud cyfraniad misol i gynllun pensiwn yr ymgeisydd llwyddiannus. Os nad yw'r unigolyn yn cyfrannu at gynllun pensiwn ar hyn o bryd, bydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig i gynllun pensiwn gweithle.

### Cyfnod Rhybudd

Mae angen tri mis o rybudd.

### Cyfnod Prawf

Mae cyfnod prawf o chwe mis yn berthnasol i'r rôl hon.

### Lleoliad

Bydd y rôl yn cynnwys trefniant gweithio hybrid, gan gyfuno gweithio yn y swyddfa a gweithio o gartref. Treulir o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos yn y swyddfa neu'n mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd, yn ôl gofynion y rôl. Mae'r swydd wedi'i lleoli yn Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB, lle mae parcio am ddim ar gael.

Gall y swydd olygu rhywfaint o deithio ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, gan olygu bod angen aros dros nos.

## Eich Gwybodaeth

Os dewiswch ymgeisio am rôl gyda ColegauCymru, bydd angen i chi roi gwybodaeth i ni amdanoch chi. Mae’n bosibl y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth amdanoch gan drydydd parti, megis eich canolwyr a, lle bo’n berthnasol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a ydych yn addas ar gyfer y rôl hon ac, os byddwch yn llwyddiannus, i reoli ein contract cyflogaeth gyda chi. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol ar gael yn ein Hysbysiad Preifatrwydd.